Cyfrol 28 . Rhif 42 . Mehefin 30 . 2016

golwg

OFFERYNWYR HEAVY METAL!
ALBYM NEWYDD BÁNDPRES LLAREGGUB

Y DDRAIG NEU'R LLEW?
ANGEN I GATLAND DDEWIS

REFFERENDWM HUNLLEFUS HUW ONLLWYN

GADAEL

CAM NESAF CYMRU YN EWRO 2016

£1.75
ISSN 0969-3295 42

Ffrwyth gwaith taith mewn lori yw casgliad diweddaraf artist o'r Alban.

O fan i fan

Hen lori symud dodrefn yw stiwdio gelf Albanes sydd bellach yn byw yng ngorllewin Cymru.

Mae'r cerbyd wedi hen arfer teithio ar hyd lonydd y wlad yn ei ddydd, ac mae'n parhau i wneud hynny yng nghwmni'r artist crwydrol, Sarah Poland.

Fel rhan o'i gradd Meistr yn Mhrifysgol Aberystwyth, dewisodd ganolbwyntio ar bortreadu bywyd pobol o ddydd i ddydd yn y gwledydd Celtaidd, gan ymweld â'r Alban, Cernyw a Chymru yn eu tro. A doedd trawsnewid y lori yn stiwdio ac yn gartref symudol ddim yn anodd, meddai.

"Mae popeth ynddo – lle i gysgu uwchben y cab, ystafell fyw gyda soffa a chegin tu ôl y cab a'r cefn yn agor allan fel stiwdio gelf ddelfrydol.

"Mae hyd yn oed cat fflap arno, achos roedd gen i gath a chi oedd yn teithio gyda fi."

Ond ers tua phum mlynedd mae'r lori wedi bod yn segur ac wedi'i pharcio mewn coedwig dderw ger Hendy-gwyn ar Daf, wedi i Sarah Poland ddisgyn mewn cariad â'r ardal. Darnau am y goedwig honno yw sail ei harddangosfa newydd, **The Intimacy Of Liminal Spaces**, yn Oriel Ten Caerdydd yr haf hwn.

"Er bod y syniad o fyw mewn coedwig yn un rhamantaidd, dydw i ddim yn ei bortreadu'n hollol heddychlon," meddai Sarah Poland.

"Mae'n medru bod yn anodd ac yn ynysig weithiau, ac un tro dw i'n siŵr imi weld cath wyllt yn crwydro'r lle."

Dywedodd bod Cymru yn ei hatgoffa o'i chartref yn Inverness am fod "gan y bobol angerdd, ac maen nhw'n nabod eu tir."

Dywedodd fod ganddi gysylltiadau teuluol yng Nghernyw hefyd, ond na fedrai ei gymharu yn yr un gwynt â Chymru a'r Alban.

"Mae yna gymaint o bobol – gan gynnwys fi – yn symud i mewn i'r ardaloedd hyn ac mae'n hawdd iawn colli'r traddodiadau wedyn."

Er hyn, mae'n edrych ymlaen at ddychwelyd i Gernyw yn yr hydref er mwyn arddangos ei gwaith yn oriel Belgrave, St Ives.

"Dw i wrth fy modd â'r ardaloedd hyn â'u cysylltiadau Celtaidd – maen nhw'n sefyll mor gadarn ar gyrion y wlad lle mae'r môr a'r tir yn uno."

MEGAN LEWIS

THE INTIMACY OF LIMINAL SPACES, RHAN O ARDDANGOSFA 'HAF' SARAH POLAND ORIEL TEN, CAERDYDD, GORFFENNAF 8 – AWST 20